



Ein cyf/ MA-L/LG/0248/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

18 Hydref 2019

Annwyl Mick

Hoffwn eich hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) 2019 ("y Rheoliadau") a gafodd eu gosod gerbron y Senedd ar 1 Hydref 2019.

Prif bwrpas y Rheoliadau yw cywiro hen gyfeiriadau mewn deddfwriaeth ddomestig i Reoliad (CE) Rhif 1107/2009 ar roi cynnyrch amddiffyn planhigion ar y farchnad. Caiff y diwygiadau eu gwneud i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu fel y bwriedir iddo cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Y rheswm am hyn yw nad yw hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth o angenrheidrwydd yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (wedi'i ddiweddarau) ac mae risg felly na fydd y llyfr statud yn gweithredu fel y'i bwriedir o ganlyniad i hynny.

Mae'r diwygiadau sydd o fewn y Rheoliadau yn cynnwys amrywiol ddeddfwriaeth ym maes plaladdwyr, dŵr a'r amgylchedd. Rwyf wedi gosod y memorandwm mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n diwygio Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, yn unol â'r gofynion o dan SO 30A. Mae'r ddarpariaeth honno yn ymestyn ac yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau eisoes wedi'u gwneud, maent o natur dechnegol ac ni fyddant yn arwain at newidiadau perthnasol i'r polisi presennol.

Mae'r Rheoliadau yn destun y weithdrefn negyddol yn y Senedd, a gafodd eu gwneud cyn iddynt gael eu gosod, ac ar yr amod nad oes unrhyw Aelod Seneddol yn gweddio yn eu herbyn, byddant yn dod i rym ar 31 Hydref 2019.

Roeddwn wedi bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol i'w drafod ar 22 Hydref ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd oherwydd camgymeriad gweinyddol. O'r herwydd nid oes amser i'r Cynulliad drafod y Rheoliadau cyn iddynt ddod i rym. Rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau na fydd camgymeriad o'r fath yn digwydd eto.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end of the name.

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog dros Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs